# Bws Cymru

## Cysylltu Pobl â Lleoedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Canllaw cyfeirio cyflym

# Helo

## Mae bysiau'n bwysig

— mae llawer o bobl yn dibynnu arnyn nhw i gyrraedd y gwaith, yr ysgol, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chysylltu â phobl.






### Cynnwys pobl

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriadau, arolygon ar-lein a chwrdd â grwpiau ledled Cymru i holi am wasanaethau trafnidiaeth a bysiau. Helpodd hyn i ni ddarganfod beth oedd yn bwysig i bobl a pha faterion sydd gyda gwasanaethau bws.

Yn 2021, fe wnaethom gyfarfod eto â grwpiau a oedd â diddordeb arbennig mewn gwasanaethau bysiau.

Mae'r adborth wedi ein helpu i gyfrifo'r meysydd mae angen i ni ganolbwyntio arnynt a datblygu'r cynllun hwn.

Mae'n bwysig cadw gwasanaethau bws yn rhedeg, yn hawdd eu defnyddio ac yn ddibynadwy. Ond, nid oes gan rai cymunedau wasanaethau bws y gallant ymddiried ynddynt:

- nid yw pobl yn teimlo y gallant ddibynnu ar y bws i'w cael lle mae angen iddyn nhw fynd
- mae nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau yn gostwng
- mae cost prisiau tocynnau wedi codi.

**Mae Llywodraeth Cymru am i hyn newid.** Rydym am i bob ardal yng Nghymru gael gwasanaethau bws sefydlog, fforddiadwy, hawdd eu defnyddio.

**Dyma ein cynllun i wella'r system fysiau ledled Cymru.**



# Rhai ffeithiau

**Nid oes gan 1 o bob 4**
o bobl yng Nghymru gar

**100 miliwn**
o deithiau bws yng Nghymru.

**Mae 25%** o ddefnyddwyr bysiau yn anabl neu â salwch hirdymor.

**80+**
o weithredwyr

**Mae nifer y** teithwyr yn mynd i lawr

Mae llawer o **bobl ifanc** yn dibynnu arnyn nhw ar gyfer ysgol neu goleg

**Mae prisiau** tocynnau'n codi

**Mae 47%** o deithiau yn defnyddio cerdyn bws

## Arfer da

Mae gan y Swistir system trafnidiaeth gyhoeddus 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn'. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gael pobl allan o'u ceir.

**Mae 2,400** o fysiau a weithredir yn lleol yng Nghymru

**4,800**
o staff




**3,700**
o yrwyr bysiau

## Gweithredwyr bysiau

Mae gweithredwyr bysiau yn rhedeg gwasanaethau bws i wneud arian ac yn gorfod penderfynu beth i'w godi ar bobl a sut i dalu am eu costau staff, tanwydd a threuliau eraill.

Maen nhw hefyd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi rhedeg bysiau yn eu cymunedau.

Mae pob gweithredwr yn cael taliadau gwahanol yn dibynnu ar eu contractau a'r llwybrau maen nhw'n eu cwmpasu. Maen nhw'n rhydd i newid gwasanaethau neu atal llwybr drwy roi 56 diwrnod o rybudd. Gall hyn fod yn anodd i bobl gynllunio teithiau. Gall hefyd olygu bod gan bobl mewn un rhan o Gymru wasanaeth bws gwell a thecach nag eraill.

Mae mwy na **£90 miliwn** y flwyddyn yn mynd i awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau bws.

Mae gweithredwyr bysiau yn blaenoriaethu llwybrau a fydd yn rhoi mwy o elw iddynt.

Mae hyn yn golygu nad oes gan rai cymunedau llai y gwasanaethau maen nhw eu hangen.



## Ein gweledigaeth

Rydyn ni am gael rhwydwaith sefydlog, hawdd ei ddefnyddio o wasanaethau bysiau sy'n cysylltu'n llawn â thrafnidiaeth gyhoeddus arall. Rydym am iddo fod yn ddibynadwy, yn fforddiadwy, yn hyblyg, yn garbon isel a chefnogi mwy o bobl i ddefnyddio'r bws ac nid eu ceir.



**Mae Bws Cymru yn cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill yng Nghymru gan gynnwys:**

### Llwybr Newydd

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Ei nod yw rhoi gwell opsiynau i bobl ac annog pobl allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Mae bysiau'n rhan fawr o hynny.

### Net Sero Cymru: Cyllideb Garbon 2

Nod hyn yw lleihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr. Mae hyn yn golygu ein bod ni angen mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026

Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer y tymor 5 mlynedd hwn. Maen nhw'n cynnwys gwella trafnidiaeth gyhoeddus, buddsoddi mewn seilwaith di-garbon a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn haws i'w defnyddio.

## Beth rydyn ni eisiau ei weld

Rydyn ni am wella gwasanaethau bws fel bod:

- → Pobl yn hapus â'u gwasanaethau bws am eu bod yn ddibynadwy.
- → Pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau bws am eu bod yn hawdd eu defnyddio ac yn fforddiadwy.
- → Bysiau'n gerbydau carbon isel modern, cynaliadwy ac ecogyfeillgar.
- → Gwasanaethau bws yn cysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus arall.
- → Gwasanaethau bws yn syml i'w defnyddio, yn hawdd eu deall ac yn ddiogel.
- → Gwybodaeth am wasanaethau bysiau yn gywir ac yn gyfredol, fel y gall pobl gynllunio eu teithiau.
- → Gyrfaoedd mewn gwasanaethau bws yn dod yn fwy deniadol, felly mae mwy o bobl eisiau gweithio yn y gwasanaeth.
- → Awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru ac eraill yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella gwasanaethau bysiau.

## Sut y byddwn ni'n gwneud hyn

**Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar 4 thema a'r camau rydyn ni am eu cymryd.**



# Thema 1: Cyflawni Gyda'n Gilydd

**Beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni?**

Rydyn ni am i bobl fod yn hapus ac ymddiried yn eu gwasanaethau bws. Rydyn ni am dyfu rhwydwaith bysiau Cymru fel ei fod yn cyrraedd mwy o gymunedau, yn rhedeg yn aml ac yn un o'r goreuon yn Ewrop.



## Camau Gweithredu



1. Byddwn yn datblygu, cyhoeddi ac ymgynghori ar Bapur Gwyn newydd ar Fysiau i gyflwyno cyfreithiau newydd ar sut y caiff gwasanaethau bysiau eu darparu ledled Cymru.

2. Er mwyn gwella gwasanaethau bysiau cyn bod Deddf Bysiau, byddwn yn sefydlu system weithredu newydd o weithio. Bydd hyn yn helpu pawb i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldeb. Gall hyn newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, eu hariannu a'u gweithredu.

3. Byddwn yn edrych ar sut mae'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (BSSG) yn gweithio ac os oes angen iddo newid. Byddwn yn sicrhau bod y taliadau hyn yn gwella gwasanaethau lleol.

4. Byddwn yn edrych ar ba mor dda mae'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn ein helpu i gyrraedd ein nodau ar gyfer Trafnidiaeth Gynaliadwy a chynyddu nifer y cerbydau carbon isel.

5. Byddwn yn cefnogi Cynlluniau Gweithredu bysiau sy'n gwella gwasanaethau bws lleol. Bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Gweithredu bysiau a nodi sut y byddant yn gwella gwasanaethau bysiau i gael cyllid.

6. Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gydweithio. Mae cydweithio yn golygu y gallant rannu adnoddau a gwella gwasanaethau'n well.

7. Byddwn yn ei gwneud yn bosibl i fwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau bws. I wneud hyn, byddwn yn gwrando ar yr heriau mae pobl yn eu hwynebu ac yn dod o hyd i ffyrdd o wella gwasanaethau.

# Thema 2: Gwell cysylltiadau

**Beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni?**

Rydym am sicrhau bod gwasanaethau bws wedi'u cynllunio'n dda ac yn cysylltu'n well. Rydyn ni am i bobl gael trafnidiaeth gyhoeddus gyda phrisiau fforddiadwy, tocynnau syml, amserlenni sy'n cysylltu a bysiau diogel.



## Camau Gweithredu



**8.** Byddwn ni'n cynhyrchu canllawiau a chyfres o reolau ar gynllunio a darparu cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus (lle mae gwahanol wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn cysylltu). Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i ysgrifennu hyn.

**9.** Byddwn yn ariannu prosiectau seilwaith bysiau sy'n helpu i gysylltu trafnidiaeth, gwella gwasanaeth tocynnau a'i gwneud yn haws i deithwyr. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cysylltu â'r Rhwydweithiau Metro newydd.

**10.** Byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella opsiynau tocynnau fel eu bod yn haws eu defnyddio, cysylltu rhwng trafnidiaeth gyhoeddus yn well ac yn fforddiadwy.

**11.** Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella'r ffordd y caiff rhwydweithiau bysiau eu cynllunio a'u trefnu ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys profi set newydd o gynllunio egwyddorion dylunio ar gyfer seilwaith bysiau.

**12.** Byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddarparu gwasanaethau gwell a dibynadwy mewn ardaloedd a chymunedau gwledig. I wneud hyn, byddwn yn creu Hybiau Gwledig/Cymunedol ac yn datblygu set newydd o safonau.

**13.** Byddwn yn gwella gwybodaeth am fysiau fel ei bod yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall.

**14.** Byddwn yn tyfu rhwydwaith bysiau TrawsCymru ledled Cymru. Rydym am weithio gydag awdurdodau lleol, edrych ar ffyrdd o gynyddu llwybrau a sicrhau bod ganddo fysiau heb unrhyw allyriadau erbyn 2026.

**15.** Byddwn yn dysgu o **Fflecsi** ac yn mynnu prosiectau bws ymatebol lle mae pobl yn cadw lle ar fws gan ddefnyddio Ap neu ganolfan gyswllt. Rhoddwyd cynnig ar hyn mewn rhai ardaloedd a gallem ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill ledled Cymru.

**16.** Byddwn yn edrych ar ffyrdd o dyfu a chefnogi trafnidiaeth gymunedol a sefydliadau trafnidiaeth gwirfoddol.

# Thema 3: Bysiau i Bawb

**Beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni?**

Rydyn ni am i bawb gael yr hyder i deithio ar fws a pheidio â chael eu hatal oherwydd rhwystrau corfforol neu rwystrau eraill. Dylai pawb, waeth beth fo'u cefndir neu eu hanghenion, deimlo bod croeso ar fysiau.



## Camau Gweithredu



**17.** Byddwn yn cynhyrchu canllawiau i sicrhau bod arosfannau bysiau yn hawdd eu cyrraedd ac yn ddiogel i bawb.

**18.** Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant bysiau, cymunedau a grwpiau i nodi materion sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o leihau'r rhwystrau hyn fel hyfforddi staff bysiau yn well, cynlluniau a defnyddio technoleg newydd.

**19.** Byddwn yn gweithio ar fesurau i wneud prisiau bysiau yn fwy fforddiadwy.

**20.** Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac yn cynnal adolygiad o'r bysiau mae plant a phobl ifanc yn eu defnyddio i gyrraedd yr ysgol a gwella'r gwasanaeth.

**21.** Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau i ddatblygu Safonau'r Gymraeg fel bod teithwyr yn cael gwasanaethau yn Gymraeg.

**22.** Byddwn yn datblygu Siarter Teithwyr Bysiau, sy'n rhoi teithwyr yn gyntaf, yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu clywed a'u bod nhw'n ymwneud â gwasanaethau cynllunio. Bydd y Siarter hefyd yn gosod proses ar gyfer ymdrin â materion a chwynion teithwyr.


# Thema 4: Cynllunio Tymor Hir

**Beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni?**

Rydyn ni am gael gwasanaethau bws sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Gall gwasanaethau bws rhagorol chwarae rhan bwysig wrth ddelio â'r argyfwng hinsawdd drwy annog pobl allan o'u ceir.



## Camau Gweithredu



**23.** Byddwn yn sefydlu Partneriaeth Gyhoeddus/Preifat a all brydlesu bysiau allyriadau isel i weithredwyr.

**24.** Byddwn yn parhau i ariannu'r gwaith o ddatgarboneiddio gwasanaeth TrawsCymru drwy ariannu bysiau trydan.

**25.** Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau bysiau yn rhan o gynllunio lleol gan fod ganddynt rôl bwysig o ran sicrhau cymunedau iach a ffyniannus.

**26.** Byddwn yn cynhyrchu Canllawiau Newydd ar Seilwaith Bysiau ac Arferion Cynllunio.

**27.** Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy hysbysebu. Mae hyn yn cynnwys Ymgyrch Adfer Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd.

**28.** Byddwn yn creu Tasglu ar gyfer Datblygiad Proffesiynol. Bydd y grŵp hwn yn edrych ar ffyrdd o wneud y sector bysiau yn yrfa fwy deniadol, yn cynyddu recriwtio ac yn gwella hyfforddiant.

**29.** Byddwn yn gofyn i'r Adran Drafnidiaeth, ac yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) i wella Hyfforddiant Gyrwyr Bysiau.

**30.** Byddwn yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu rhaglenni hyfforddi. Bydd hyn yn helpu i hyfforddi pobl fel peirianwyr i weithio ar fflydoedd bysiau datgarboneiddio a cherbydau eraill.  as engineers to work on decarbonised bus fleets and other vehicles.

**31.** Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl gael gyrfaoedd proffesiynol ym maes trafnidiaeth.

# Diolch am ddarllen hwn

**Gallwch ddarllen y cynllun llawn yma:**

llyw.cymru/trafnidiaeth-gyhoeddus

